



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2015 Rhif 1846 (Cy. 273)

2015 No. 1846 (W. 273)

LLESIANT, CYMRU

WELL-BEING, WALES

Rheoliadau Deddf Llesiant
Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)
2015 (Buddiannau Cofrestradwy)
2015

The Well-being of Future
Generations (Wales) Act 2015
(Registrable Interests) Regulations
2015

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae paragraff 13(1) o Atodlen 2 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf") yn gwneud darpariaeth bod rhaid i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ("y Comisiynydd") greu a chynnal cofrestr sy'n cynnwys holl fuddiannau cofrestradwy'r Comisiynydd a holl rai Dirprwy Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ("y Dirprwy Gomisiynydd").

Paragraph 13(1) of Schedule 2 to the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 ("the Act") makes provision that the Future Generations Commissioner for Wales ("the Commissioner") must create and maintain a register containing all of the registrable interests of the Commissioner and the Deputy Future Generations Commissioner for Wales ("the Deputy Commissioner").

Mae paragraff 13(2)(a) o Atodlen 2 i'r Ddeddf yn darparu i Weinidogion Cymru bŵer, drwy reoliadau, i bennu pa fuddiannau sy'n fuddiannau cofrestradwy at ddibenion paragraffau 13, 14 a 15 o Atodlen 2 i'r Ddeddf.

Paragraph 13(2)(a) of Schedule 2 to the Act provides the Welsh Ministers with the power, by regulations, to specify what interests are registrable interests for the purposes of paragraphs 13, 14 and 15 of Schedule 2 to the Act.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn gan ddibynnu ar y pŵer a ddarparwyd gan baragraff 13(2)(a) o Atodlen 2 i'r Ddeddf. Mae rheoliad 2 yn cyflwyno'r Atodlen i'r Rheoliadau sy'n pennu buddiannau cofrestradwy'r Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd.

The Welsh Ministers make these Regulations in reliance upon the power provided by paragraph 13(2)(a) of Schedule 2 to the Act. Regulation 2 introduces the Schedule to the Regulations which specifies the registrable interests of the Commissioner and Deputy Commissioner.

Ni pharatowyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Rheoliadau hyn.

A Regulatory Impact Assessment has not been prepared for these Regulations.

2015 Rhif 1846 (Cy. 273)

2015 No. 1846 (W. 273)

LLESIANT, CYMRU

WELL-BEING, WALES

Rheoliadau Deddf Llesiant
Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)
2015 (Buddiannau Cofrestradwy)
2015

The Well-being of Future
Generations (Wales) Act 2015
(Registrable Interests) Regulations
2015

Gwnaed 29 Hydref 2015

Made 29 October 2015

*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 2 Tachwedd 2015

*Laid before the National
Assembly for Wales* 2 November 2015

Yn dod i rym 23 Tachwedd 2015

Coming into force 23 November 2015

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan baragraff 13(2)(a) o Atodlen 2 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by paragraph 13(2)(a) of Schedule 2 to the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015(1), make the following Regulations:

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Buddiannau Cofrestradwy) 2015.

1.—(1) The title of these Regulations is the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 (Registrable Interests) Regulations 2015.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 23 Tachwedd 2015.

(2) These Regulations come into force on 23 November 2015.

Buddiannau cofrestradwy

Registrable interests

2. Mae'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn yn pennu buddiannau cofrestradwy Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a Dirprwy Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru at ddibenion paragraffau 13, 14 a 15 o Atodlen 2 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2. The Schedule to these Regulations specifies the registrable interests of the Future Generations Commissioner for Wales and the Deputy Future Generations Commissioner for Wales for the purposes of paragraphs 13, 14 and 15 of Schedule 2 to the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015.

Carl Sargeant

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weiniogion
Cymru
29 Hydref 2015

Minister for Natural Resources, one of the Welsh
Ministers
29 October 2015

(1) 2015 decc 2.

(1) 2015 anaw 2.

YR ATODLEN Rheoliad 2
BUDDIANNAU COFRESTRADWY

RHAN 1

Dehongli

1. Yn yr Atodlen hon—

ystyr “aelod o deulu” (“*family member*”) mewn perthynas â’r Comisiynydd yw partner y Comisiynydd ac unrhyw blentyn;

ystyr “y Comisiynydd” (“*the Commissioner*”) yw Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru a Dirprwy Gomisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru (p’un ai’n unigol neu gyda’i gilydd);

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015;

ystyr “eiddo perthnasol” (“*relevant property*”) yw tir neu eiddo deallusol y mae’r Comisiynydd yn dal mewn cysylltiad ag ef fuddiant sydd wedi ei gaffael drwy arian a ddarparwyd gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 16 o Atodlen 2 i’r Ddeddf;

ystyr “partner” (“*partner*”) yw priod, partner sifil neu un o gwpl p’un ai o’r un rhyw neu o’r rhyw arall sy’n byw gyda’i gilydd, er nad ydynt yn briod â’i gilydd, ac sy’n trin ei gilydd fel dau briod;

ystyr “plentyn” (“*child*”) yw unrhyw berson sydd, adeg cofrestru’r buddiant, naill ai yn—

- (a) plentyn i’r Comisiynydd;
- (b) llysblentyn i’r Comisiynydd drwy briodas neu bartneriaeth sifil;
- (c) person sydd wedi ei fabwysiadu’n gyfreithiol gan y Comisiynydd;
- (d) person sydd wedi ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu gyda’r Comisiynydd; neu
- (e) person sydd o dan un mlwydd ar bymtheg oed, neu o dan bedair blwydd ar bymtheg oed ac yn cael addysg lawnamser, ac sydd am y chwe mis calendr blaenorol wedi cael cefnogaeth ariannol gan y Comisiynydd.

SCHEDULE Regulation 2
REGISTRABLE INTERESTS

PART 1

Interpretation

1. In this Schedule—

“the Act” (“*y Ddeddf*”) means the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015;

“child” (“*plentyn*”) means any person who, at the time the interest is registered is either—

- (a) a child of the Commissioner;
- (b) a step-child of the Commissioner by marriage or civil partnership;
- (c) a person legally adopted by the Commissioner;
- (d) a person placed for adoption with the Commissioner; or
- (e) a person under the age of sixteen, or under the age of nineteen and in full-time education, and who, for the previous six calendar months, has been financially supported by the Commissioner;

“the Commissioner” (“*y Comisiynydd*”) means the Future Generations Commissioner for Wales and the Deputy Future Generations Commissioner for Wales (whether individually or together);

“family member” (“*aelod o deulu*”) in relation to the Commissioner means the Commissioner’s partner and any child;

“partner” (“*partner*”) means a spouse, civil partner or one of a couple whether of the same sex or opposite sex who although not married to each other are living together and treat each other as spouses;

“relevant property” (“*eiddo perthnasol*”) means land or intellectual property in respect of which the Commissioner holds an interest acquired by money provided by the Welsh Ministers under paragraph 16 of Schedule 2 to the Act.

RHAN 2

PART 2

Buddiannau

2. Y buddiannau y cyfeirir atynt yn rheoliad 2 yw—
- (a) manylion unrhyw swydd neu gyflogaeth [am dâl neu heb dâl] a ddelir gan y Comisiynydd neu aelod o'i deulu;
 - (b) manylion unrhyw fuddiant a ddelir gan y Comisiynydd neu aelod o'i deulu mewn eiddo perthnasol;
 - (c) enwau unrhyw gwmnïau neu gyrff eraill y mae gan y Comisiynydd, naill ai ar ei ben ei hun neu gydag aelod o'i deulu, neu ar ran aelod o'i deulu, fuddiant llesionol mewn cyfranddaliadau;
 - (d) swyddi cyfarwyddwyr am dâl a ddelir gan y Comisiynydd mewn unrhyw gwmni, gan gynnwys swyddi cyfarwyddwyr na thelir tâl iddynt yn unigol ond lle y telir tâl drwy gwmni arall yn yr un grŵp;
 - (e) enwau unrhyw gwmnïau neu gyrff eraill y mae'r Comisiynydd yn ymddiriedolwr ynddynt;
 - (f) manylion unrhyw dâl, cyllid, rhodd, neu fudd ar ffurf nwyddau neu wasanaethau a geir gan y Comisiynydd, mewn cysylltiad ag arfer swyddogaethau'r Comisiynydd, oddi wrth unrhyw gwmni neu gorff; ac
 - (g) manylion unrhyw swydd a ddelir gan y Comisiynydd mewn plaid wleidyddol.

© Hawlfraint y Goron 2016

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Interests

2. The interests referred to in regulation 2 are—
- (a) details of any office or employment [paid or unpaid] held by the Commissioner or a family member of the Commissioner;
 - (b) details of any interest held by the Commissioner or a family member of the Commissioner in a relevant property;
 - (c) the names of any companies or other bodies in which the Commissioner has, either alone or with or on behalf of a family member of the Commissioner, a beneficial interest in shares;
 - (d) remunerated directorships held by the Commissioner in any company including directorships which are individually unremunerated but where the remuneration is paid through another company in the same group;
 - (e) the names of any companies or other bodies in which the Commissioner is a trustee;
 - (f) details of any remuneration, funding, gift or benefit in kind received by the Commissioner, in connection with the exercise of functions of the Commissioner, from any company or body; and
 - (g) details of any office held by the Commissioner in a political party.

© Crown copyright 2016

Printed and Published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

